

Cylchlythyr Pont Tyn-y-bryn

Rhifyn 3 – Rhagfyr 2023



Pont droed newydd yn glanio!



Ym mis Tachwedd, cyrhaeddod ni garreg filltir bwysig yn ein prosiect yn Nhy-n-y-bryn wrth i ni osod y bont droed newydd sbon. Cafodd rhan o'r A4119 ei chau dros dro dros nos ar 17 Tachwedd er mwyn gosod y bont droed 11 metr gan ddefnyddio craen 120 o dunnelli.

Gweithiodd y tîm cyfan yn galed drwy'r nos i gwblhau'r gwaith cyn gynted â phosibl, gyda'r bont yn ei lle a'r ffordd yn ailagor ymhell yn gynt na'r disgwyl.

O ddechrau'r prosiect, roedd arloesi'n flaenoriaeth er mwyn gwthio ffiniau'r hyn sy'n bosibl i ddarparu ateb ecogyfeillgar o ran gosod y bont droed newydd. Gan weithio gyda'n dylunwyr, Baker Hicks, ac yn ein hymdrechion i leihau carbon yn ystod y prosiect,

buon ni'n ymchwilio i wahanol ddulliau o adeiladu pontydd a deunyddiau i'w defnyddio.

Cafodd y bont sy'n hybu teithio llesol ei chreu oddi ar y safle a chafodd hi ei dylunio gyda thechnegau adeiladu modern yn hytrach na dulliau ac atebion traddodiadol, carbon uchel. Mae manteision niferus y bont yn cynnwys defnyddio llai o ynni i'w chreu nag atebion pont traddodiadol, a dyw hi ddim mor drwm, felly mae modd ei chludo gan ddefnyddio llai o ynni - a llai o allyriadau CO2 o lawer.

Bydd y gwasanaeth bws gwennol am ddim yn parhau yn ei le nes bydd y bont droed newydd yn cael ei hagor i'r gymuned leol yn gynnar y flwyddyn nesaf. Byddwn yn eich diweddarau am ddyddiad agor disgwyliedig y bont newydd.

Sgôr 'rhagorol' i Dîm Tyn-y-Bryn

Mae'r tîm Tyn-y-Bryn wedi cael sgôr eithriadol o 48/50 (sef gradd rhagorol) yn ei ymweliad cyntaf gan fonitor Cynllun Adeiladwyr Ystyriol.

Yn ogystal â sgôr berffaith o 45/45 yn y categori 'cymuned, yr amgylchedd a'r gweithlu', sgoriodd y tîm dri phwynt ychwanegol am arloesi ac arfer gorau gan gynnwys:

- Y gwasanaeth bysiau dros dro am ddim (1 pwynt ychwanegol am arfer gorau)
- Y bont droed FRP newydd (2 bwynt ychwanegol am arloesi)

Mae'r sgôr anhygoel o 48/50 i'r prosiect hwn hyd yn oed yn fwy trawiadol gan fod hwn yn gynllun ar raddfa lai a chyfyngiadau ffisegol y safle.



Casglu sbwriel dros gyfnod y Nadolig!



Gan weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Amgylchedd Tonyrefail, bu aelodau o dîm safle Tyn-y-Bryn allan ar ddiwrnod gaeafol a braidd yn wlyb yn eu Cyfarpar Diogelu Personol gwrth-ddŵr i helpu i glirio rhywfaint o sbwriel o dir y tu ôl i Gilcoru Kennels.

Er gwaethaf y tywydd, cafodd y tîm amser gwych gyda phawb mewn hwyliau da!

Cafodd sawl bag o sbwriel eu symud o'r ardal gan gynnwys hen foned car a gwastraff cyffredinol.

Cau yn ystod y Nadolig

Sylwer, bydd y safle yn cau dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, o 22 Rhagfyr 2023 tan 08 Ionawr 2024.

Os oes angen i chi siarad â rhywun ar frys am y safle yn ystod y cyfnod hwn, cysylltwch â llinell gymorth argyfwng Balfour Beatty ar: 0800 121 4444.

Mynnwch y cylchlythyr yma'n uniongyrchol!

Rydyn ni'n gobeithio bod y cylchlythyr yma'n ddefnyddiol i chi. Os hoffech chi gael y newyddion diweddaraf am y prosiect, mae modd ichi gofrestru ar gyfer rhestr bostio ein cylchlythyr. Anfonwch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost i: tynbrynbridge@balfourbeatty.com neu sganwch y cod QR yma ar eich ffôn i lenwi'r ffurflen ar-lein.



Gweithlu'r dyfodol

Dewch i nabod â Folami! Ar ôl cyfnod o brofiad gwaith ar ein safle Tyn-y-Bryn yn yr haf, ail-ymunodd Folami â ni yn ôl ym mis Medi ar interniaeth gyflogedig, ddeuddydd yr wythnos, tra'n astudio ei radd Meistr mewn Rheoli Prosiectau ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste.

Gan fod ganddo ddi-ddordeb mewn adeiladu, bachodd Folami ar y cyfle i ymuno â'r tîm i ennill profiad ymarferol mewn rheoli prosiectau.

Dywedodd Folami: "Rydw i mor ddiolchgar i Balfour Beatty am y cyfle hwn - rydw i wedi dysgu cymaint gan y tîm yn barod. O sut i gydlynu safle, rheoli gweithgareddau'r safle ac arferion adeiladu da, i sut i greu amgylchedd gwaith cyfeillgar, meithrin gwaith tîm da, a sut i weithio dan bwysau a chynnal agwedd dda.

"Dwi wir yn mwynhau dod i'r safle... Rydw i wrth fy modd â'r tîm; Maen nhw wedi rhoi cymaint o groeso i fi. Mae'n gwneud i mi edrych ymlaen at brosiectau eraill yn y dyfodol - gobeithio gyda Balfour Beatty!

"Fel myfyriwr rhyngwladol, mae'r cyfle hwn wedi cynyddu'n aruthrol fy siawns o gael gwaith yn y dyfodol mewn marchnad gystadleuol iawn. Rydw i wedi dysgu cymaint o wybodaeth ymarferol ac erbyn hyn rwy'n teimlo bod gen i gyfle go iawn. Mae Balfour Beatty wedi ei gwneud yn werth chweil ac wedi rhoi gobaith enfawr i mi ar gyfer fy nyfodol."

I gael gwybod mwy am ein rhaglen gyrfaoedd cynnar: www.balfourbeattycareers.com/early-careers



Mae'r cylchlythyr yma ar gael mewn sawl diwyg ar gais. E-bostiwch tynbrynbridge@balfourbeatty.com am ragor o wybodaeth.